



# CWTSH MYRDDIN

**RHIFYN - 17.03.2017**

## Canlyniadau Eisteddfod Gylch yr Urdd 2017

Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yr Urdd.  
Dyma'r canlyniadau:

**Llefaru bl 7-9** 1. Sioned Cray, 2. Megan Bryer, 3. Betsan Campbell

**Unawd bl 7-9** 1. Lisa Davies, 2. Bica Ann Jones, 3. Carys Morgan

**Alaw Werin bl 7-9** 1. Ifan Knott, 2. Betsan Campbell, 3. Beca Ann Jones

**Cerdd Dant bl 7-9** 1. Betsan Campbell, 2. Beca Ann Jones, 3. Mabli Reynolds

**Deuawd bl 7-9** 1. Elain Owen a Betsan Campbell, 2. Ifan a Sioned

**Unawd bechgyn 7-9** 1. Ifan Knott

**Llefaru bl 10 a dan 19** 1. Hanna Medi Davies, 2. Lois Campbell, 3. Luke Rees

**Unawd Merched bl 10 a dan 19** 1. Mared Owen, 2. Lowri Richardson,  
3. Hanna Medi Davies

**Alaw Werin bl 10 a dan 19** 1. Sioned Beynon, 2. Elin Fflur Jones,  
3. Mared Owen

**Cerdd Dant bl 10 a dan 19** 1. Sioned Beynon, 2. Hanna Medi Davies,  
3. Hannah Richards

**Deuawd bl 10 a dan 19** 1. Mared Owen a Phoebe Morgan, 2. Elin Fflur Jones ac  
Alaw Evans

**Deuawd Cerdd dant bl 10 a dan 19** 1. Elin Fflur Jones ac Alaw Evans, 2. Mared  
Owen a Phoebe Morgan

**Unawd bechgyn bl 10 a dan 19** 1. Luke Rees

**Ymgom bl 10 a dan 19** 1. Grŵp Mabon, 2. Grŵp Lleu

**Monolog bl 10 a dan 19** 1. Sioned Beynon, 2. Guto Huws

**Sioe Gerdd bl 10 a dan** 1. Mared Owen, 2. Alaw Evans, 3. Hannah Richards

## Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgol Aberystwyth

Bu myfyrwyr o Ysgol Gyfun Bro Myrddin yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgol Aberystwyth. Eleni, dyfarnwyd 65 o ysgoloriaethau a nifer o wobrau teilyngdod gan y Brifysgol.

Ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus roedd:

- ✓ Eve Johnson – Ysgoloriaeth Syr Alfred Jones - £1,000 y flwyddyn
- ✓ Beca Lleucu Phillips – Gwobr Teilyngdod - £1,000
- ✓ Eleanor Alicia Phillips – Gwobr Teilyngdod - £1,000
- ✓ Marged Ann Smith – Gwobr Teilyngdod - £1,000

Hoffai'r ysgol longyfarch y merched ar eu llwyddiant ysgubol a dymuno pob hwyl iddynt i'r dyfodol

## Pencampwyr Rygbi rhanbarth y Sgarlets a thaith i Barc yr Arfau

Llongyfarchiadau i dîm rygbi hŷn yr ysgol am ennill pencampwriaeth rhanbarth y Sgarlets drwy guro tîm ysgol Greenhill 38-7. Maent hefyd wedi cyrraedd rownd derfynol cwpan ysgolion Cymru a fydd yn cael ei chynnal ym Mharc yr Arfau am 2.30 ar ddydd Llun, Ebrill y 3ydd.



## Cyngerdd Gŵyl Ddewi Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Ar nos Sadwrn y 4ydd o Fawrth roedd Theatr y Lyric, Caerfyrddin dan ei sang a phawb wedi dod i wylio corau'r ysgol yng nghwmni Huw Chiswell. Cafwyd noson i'w chofio o dan arweinyddiaeth y cyn-ddisgybl Heledd Cynwal. Llywydd y noson oedd y cyn-bennaeth a'r cerddor Mr Eric Jones a chafwyd araith bwrpasol ganddo. Cafwyd perfformiadau hyfryd gan y côr hŷn, y côr iau, y côr merched hŷn, y côr bechgyn hŷn, y parti merched a'r parti bechgyn iau. Braff oedd clywed yr hen ffefrynnau gan Huw



Chiswell a'r diweddglo bendigedig wrth i dros 150 o ddisgyblion yr ysgol ymuno gydag ef i ganu 'Y Cwm.' Dymuna'r ysgol ddiolch o galon i bawb a fu'n rhan o lwyddiant y noson – y disgyblion, yr hyfforddwyr, y cyfranwyr a'r gynulleidfa luosog o ffrindiau a rhieni a ddaeth ynghyd. Pa well ffordd i ddathlu Gŵyl ein nawddsant a'n Cymreictod wrth ddod at ein gilydd i 'wneud y pethau bychain' hyn.

Dr Llinos Jones

## Dawnsio Hip-Hop

Llongyfarchiadau mawr i Amelia Dawber sydd wedi dod yn 3ydd mewn cystadleuaeth dawnsio Hip-Hop ar lefel Brydeinig ac yn awr yn symud ymlaen i gynrychioli Prydain yn y Gystadleuaeth "World Hip Hop" yn Arizona mis Awst.

## Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Elina Deacon o flwyddyn 12 a Carrie Davies o flwyddyn 9 oedd yn rhan o dîm Gymnasteg Dyfed a enillodd ym mhencampwriaeth Gymnasteg Cymru yn ddiweddar.

## Polo Dŵr

Llongyfarchiadau i James Williams o flwyddyn 12 sydd wedi cael ei ddewis i dîm Polo Dŵr Cymru a fydd yn cystadlu yng ngweriniaeth Tsiec ym mis Ebrill.

## Rygbi Blwyddyn 9

Llongyfarchiadau i dîm Rygbi blwyddyn 9 sydd bellach yn rownd gyn-derfynol cwpan ysgolion Cymru ar ôl gêm galed yn erbyn Llanishen. Fe wnaeth y bechgyn hefyd ennill cystadleuaeth 7 bob ochr Bishopston yn ddiweddar.

## Llwyddiant y bechgyn pêl-droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed blwyddyn 7 ar gyrraedd rownd gyn-derfynol cwpan ysgolion Cymru ar ôl curo Dyffryn Nantlle o 4-2.

Yn anffodus, colli o giciau o'r smotyn fi hanes y tîm pêl-droed hŷn yn y gêm go-gynderfynol.

## Llwyddiant pêl-rwyd.

Enillodd timoedd blwyddyn 8, 9, 10, 11 a 12 yn ddiweddar yn erbyn coleg Llanymddyfri.

Tîm 8a yn ennill o 36-1;

tîm 8b yn ennill o 16-0;

tîm bl 9 yn ennill o 45-0;

bl 10 o 24-1 a'r tîm hŷn o 47-2.